# Sylwi ar Arwyddion o'r Gwanwyn

Mae'n hyfryd sylwi ar y dyddiau'n ymestyn yn y gwanwyn. Mae yna gymaint o bethau i edrych allan amdanynt sy'n dweud wrthym fod y gwanwyn wedi dechrau. Ewch am dro yn lleol i weld faint o arwyddion o'r gwanwyn allwch chi sylwi arnyn nhw gan roi tic iddyn nhw isod.



***Collen – Cynffonau ŵyn bach***

Blodau gwryw coed cyll yw'r rhain sy'n ymddangos yn y gwanwyn.



***Clychau'r Gog***

Planhigion coetir sy'n blodeuo yn ddiweddarach yn y gwanwyn ydy'r rhain, ond efallai y gwelwch chi'r egin gwyrdd yn ymddangos.



***Aderyn Du neu'r Fwyalchen***

Mae'n bosibl y gwelwch chi'r aderyn du yn casglu deunydd i adeiladu nyth. Beth am ei helpu drwy adael gwellt a gwallt o'ch brws gwallt allan iddyn nhw.



***Gwyddau bach***

Mae'r blodau blewog hyn yn ymddangos yn gynnar yn y gwanwyn dipyn o amser cyn i'r dail ymddangos.



***Gwenynen / Gwenyn***

Mae'r wenynen yn ymddangos ar ôl gaeafgysgu yn llwglyd ac ar grwydr am ffynonellau bwyd. Mae'r dant y llew yn blodeuo'n gynnar ac yn ffynhonnell gyfoethog o baill.



***Oen / Ŵyn***

Mae'n amser prysur i ffermwyr yn y Parc Cenedlaethol gyda digon o ŵyn bach newydd yn cael eu geni.



***Lili Wen Fach neu'r Eirlys***

Dyma'r blodau cyntaf i ymddangos ac maen nhw'n tyfu mewn coetiroedd neu ger nentydd.



***Grifft***

Mae'r clystyrau hyn o jeli yn cynnwys embryonau ac yn ymddangos mewn pyllau o ddiwedd Ionawr. Mae brogaod yn aml yn dychwelyd i'r un pwll i silio (dodwy wyau).



***Llygad Ebrill***

Planhigyn coetir ydy'r rhain sydd hefyd yn tyfu mewn mynwentydd a pharciau o dan wrychoedd. Mae'n darparu neithdar gwerthfawr i bryfed cynnar.